ATTEB I WR BONHEDDIG,

A geisiodd brydyddu senn, ir ysbryd a ddesgynodd ar rai gwrandawyr bywiol yn ddiweddar, ac au gwnaeth hwy i ganu, a dublu canu Mawl i Dduw a'r Oen; ie Bendithio, Molianu, Llawennau; Llammu, a Neidio o Orfoledd eu Iechadwriaeth.

Ar atteb hwn a wnaeth yr awdwr, rhi mewn dyll o wradwyddo y dyn hwnnw, [illegible] yn yr ysgrythurau, a'u anfeidrusiwyd[illegible] ddu; Ond i roi Calondid i Bobl y Iechawdwriaeth fel na lwfrhant ganmawl eu Duw er gwrthnebiadau yr aniallus ar dibrofiad.

K

Gan WILLIAM WILLIAMS.

O Ddyn truenus gyflwr ac o ysbryd chwerw cras:
Pa fodd rwyt heb ddychrynu a gabbyr Dwyfol ras?
Dy sturu gwawdio damsiad, a llidio at nefol dan,
Yw'r pechod sydd yn Erbyn y Sanctaidd Ysbryd Glân.

Mark. 3. 28, 29 Math. 12. 31. Luc. 12. 10. Math 24

Byth na faddeuir mohono (hyn gweithied ynot fryw)
Nag yn y byd presenol, nag yn y byd a ddaw;
O athlos pam ar *Salem* daeth barnedigaeth fawr,
Ac ewympodd tros ganmwrddiwn o gablwyr ffraeth i lawr?

Cans fe gyhoeddoedd Iesu ei bechu ef yn llawn,
Gan yr *Iddewon* gwaedlyd er maint eu dylg nu daeth;

Con-

Cenfigen llid a malis ydyw ei natur driſt;
Run yw ag ſydd gan ddiafol yn erbyn Duw ai Griſt.

Dychryned neb rhag dwedyd dim eroes i foli Duw,
Pan y mae ſŵn y Bibl oi ddechreu iw ddiwedd yw;
Does *Saint* o fewn iw glorian nad yw yn ſeinio'i gân,
Lawn *Haleluia* uchel am Iechawdwriaeth lân;

2, *Theſ.* 5. 16; 17. *Col.* 1. 12. *Pſal.* 33. 1 a 22. 23. a 65. 1.

Lleferwch wrth eich gilidd mewn ſalmau a hymnau'n (hu,
Ag odleu hyfryd melus *Apoſtl* ddwed i ni;
Gan ganu a phyngcio'n llawen yn eich calonau'n dân,
A Ieſu ai Iechawdwriaeth a fyddo ſwm eich can.

Gwel dorf yn y *Datguddiad* yr eglwys fawr yn un;
Saint ſeraph angel cerub pob afod yn guttun,
Yn gwaeddi boed yr enw y parch ar clod ynghyd,
Ir Dwyſol Oen fy farw cyn iddo ſeilio'r byd.

Dat. 5. *Dat* 20. *Eph.* 5. 19 *Col.* 3. 16.

A chan ei gwres ai cariad hwy'n dyblu'u hanthem maen
Drachefn Haleluia felyſaf yw eu can;
Ac nid yw bywyd Criſtion i gid o ddydd i nos,
Ond un rhyw hymn o ddiolch ir hwn fy ar y gro's.

Wyth Haleluia wreſog mewn wyth o leiniau cawn,
Yn un o Salmau *Dafydd*, au ſwn yn beraidd iawn;
Gan alw'r holl greadigaeth yn eu hamrywiol ryw,
I ſwnio maes yn gyſſon ogoniant pur eu Duw.

O molwch ef y nefoedd, yr uchelderau fry,
Angylion archangylion, ar holl ſeraphaidd Lu;
Rhoid haul a lloer a phlaned pob ſeren yn y Ne'
Y clod ou Creadigaeth yn gyfan iddo 'fe.

Am iddo roi 'ddynt ddeddfod a faif yn ſicr iawn,
Na chollant ddim ou hamſer na borau na phrydnhawn
Ai fod yn llywodraethu yr holl ffurſafen laes,
Na fethant gadw eu llwybrau nes mynd eu leaſe y maes.

Tan cenllyſg rhew ac eira tarth gwynt yſtormus cry,
Sy'n mynd a dod wrth reol ein Crewr oddi fry;

Pob

Pob brun a phant a mynydd, y coedydd ffrwythlon llawn
Y derw cryf ar cedrwyd, rhowch iddo glod yn iawn.

Pob bwyſtfil pob anifail, a phob ymlſgiad mân,
Pob deryn ſydd ac aſgell i hedeg yn y blân,
Brenhinoedd mawr y ddaear, ar bobloedd oll yn un,
Cydgewch gan o foliant i'n Prynwr yn guttun.

Dywyſogion mawr dewch chwithe yn ngwmpni barnwr
Wyr ifainge a gwyryfon a hynaf-wyr yn nghyd; byd,
Cenwch eich Haleluia fe'n unig bia'r clod,
Fedd hawl o hono arall nag heddyw nag erioed.

Pe buaſai'r ficcar *Prichard* un waith yn gweld dy ſenn,
Efe bentyrſai farwor poeth tanllid ar dy Ben;
Ac a baraſai ir bobl ſynd tua *Bethlem* lân,
Tan ganu neidio a dawnſio, fel parodd ef o'r bla'n.

A hynny oedd ei feddwl i fynd tan foddion gras,
Tan ganu a moliannu fel rhai fai'n cario'r ma's;
A neidio ir lan wrth gredu i fod y dwyfol glwy,
A wnaethpwd ar *Galfaria* yn perthyn iddint hwy.

A dyn paham na chaniff, pan ganodd lluoedd nef,
Lle clywodd y bygeiliaid yr amſer ganwyd ef?
Gogoniant be'r ſeraphiaid ir drindod mawr yn un,
Tangnefedd ar y ddaear i druenyſaf ddyn. *Luc.* 2. 15.

Pe buaſit ti yn gweld y llu aneiri eu rhi, *Math.* 21 8 9.
Yn dod i ddinas *Salem* yn nghwmpni'n Harglwydd ni,
Ti fuaſit fel yr *Iddew* yn llawn o'r gwenwyn glas,
Ath lid yn torri'n gabledd echrydus iawn i ma's.

Hwy'n gwaeddi haleluia, hoſanna ir Brenin mawr,
Gan daflu ei gwiſgoedd gorau ar waſtad dir i lawr;
Hoſanna i Frenin Sion ar Ebol dyma fe; *Zech* 9. 9.
Ar eccho yn adſain trwy holl balaſau'r dre.

Yn tori cangau gleiſion o'r coedydd heb ddim braw,
A chodi rhain yn uchel i fynu yn eu llaw; *Pſal* 118.
O frenin ſion meddant fe'n dwg ni oll yn rhydd. *John*
Nol diſgwyl faith flynyddau o'r diwedd daeth y dydd. 12

O pwy na chawai'i galon ond rhyw druenus ddyn?
A chwant fod yn eu cwmpni yr awrhon yno ei hun;

A phîm

A phan y del yr oeſoedd ſy heddyw'n mron a do'd,
Bydd mil am bob un etto pryd hynny'n canu clod.

Eſa. 66. 9. *Dat.* 20. a 21. *Rhuf.* 11. 26. *Zeph* 3. 14. *Eſa.* 62. 11. *Zech.* 2. 10. a'r 9. 9. *Eſa.* 53.

O agor ddyn dy lygaid, a gwrando gydſain lef,
Yr hen brophwydi ſy heddiw yn canu yn y nef;
Crechwenna di ferch Sion yn awr eon iawn medd un,
Ar aſſen mae dy Frenin lâreiddiaf ddwyfol ddyn;

Yn dod yn aeddfwyn hyfryd heb falchder rhwſg na bri
Dioſgodd ei ogoniant i dalu ein dyled ni;
Aed atto bechaduriaid rai tlotta i's y nen,
Fe dâl eich holl ofynion ar un waith ar y pren.

Fe ddywed *Zachariah* am ddyddiau'r fengil lon;
Goſtyngа'r ſaint eu g'lynion a cherrig y daſl ffon;
Hwy yfant a therfyſgant yn ngrym y melys win,
Awelon o galfaria melyſa eriod eu rhin.

Hwy fyddant fel y meddwon yn ſiglo yma a thraw,
Yn gwaiddi o lawenydd wrth weld eu cyfoeth draw;
Llifeiriant o dryſorau yn y baradwys well,
O werthfawrogrwydd ragor na chyfoeth *India* bell.

Fe'i llenwir fel y miliau o orſoledd hyfryd iawn,
Ac fel cornelau'r allor o heddwch pur yn llawn;
A dilanwadeu'r yſpryd yn gweithio ou mewn mor gry,
Nes byddont fel ynſydion gan yr annuwiol Lu.

Tro ir Bibl ddyn diddarllen gwel frenin mawr eu barch
Yn neidio, yn capro, yn dawnſio, yn hu o flaen yr arch
Yn dioſg ei hardd wiſgoedd, ac yn ei fain grys gwyn,
Yn canu ir lechawriaeth ſy ar Galfaria fryn.

Pawb yno oll yn wreſog, neb etto ond efe,
A chwariodd ai holl egni oflaen arch Brenin ne';
A hon oedd hyfryd gyſgod o brynedigaeth lawn,
A hoilion dur a ſeliwyd ar galfari brydnhawn.

Am hynny *Michal* ynfyd merch *Saul* a ddaeth o dre,
Mewn chwerw danbaid yſpryd iddi'w gyfarfod E';
Mor ogoneddus heddiw y Brenin mawr be hi
Yn dioſg ei holl wiſgodd garbron aneirif Lu.

A llaw-

A llawforwinion-trythyll ei weiſion hwythe'n dynn,
Yn ſullu eu llygaid arno, a gweddaidd ydoedd hyn?
Fel ymddioſgai ynfyd ymddioſg wneſt yn llawn,
A rhyw ynfydrwydd ragor mewn ynfyd ddyn nis cawn.

Ond *Dafydd* ai hattebodd yn llawn o'r nefol dân,
Heb gwilidd heb ddifeirwch o'r hyn a wnaeth o'r bla'n
Garbron yr Arglwydd chweriais y Duw'm dewiſodd I;
O flaen dy dad difilwedd, na neb oi ynfyd dy.

Ac fe orchmynnodd imi i fod yn flaenor hy,
Ar *Iſrael* lân ei bobl er mae aneirif lu;
Garbron ei arch y chweriais ei Iechadwriaeth lon;
Ac etto mi a chwariaf tro bywyd tan fy mron.

A byddaf ragor waelach iſelach d'lotach ddyn,
Dirmugus etto byddaf im golwg dlawd fy hun;
A chari'r llawforwynion mi garia'r dawns ymla'n,
Chaiff *Michal* byth mo ddiffodd o'r nefol ddwyfol dân

Ac nis cas *Michal* 'Tiſedd tra yn y byd yn byw,
Am iddo ddiyſturu Zêl tros ogoniant Duw;
Fe ddigiodd neſoedd wrthi chai neb oi had hi fod,
Yn frenin ar fryn Sion tra ſeren ar y rhod.

Am hyn mae'n gabledd enbyd i wawdio'r dwyfol dân,
Awelon cryf yr yſpryd ſyn difa oll oi fla'n;
A'i effeithiau mor aneirif ai fflammiau'n torri ma's,
Gan ennyn pob rhinweddau a blanodd dwyfol ras.

Fe welodd *Joel* yn eglur rai o'r effeithiau pur,
Ar wyl y *Pente* a gwympe o fewn i *Salem* dir; *Joel* 2. 28
Ac mae e'n dwyn tyſtiolaeth tros Ieſu frenin nen,
Lawn wythgant o flynyddau cyn iddo ddoed i ben.

Bydd yn y dyddiau olaf a mi ai gwnaf medd Duw
Tywalltaf om glân yſpryd ar ddynion o bob rhiw;
Eich meibion chwi ach merched yn gymyſg ddiwahan,
Broffwydant ganant molant am ras eu Harglwydd glân.

Eich iefaingc wyr a welant weledigaethau plain,
Ach hynaf wyr freuddwydant yn gwmwys fel y rhain;
Eu melus fân freuddwydion au gweledigaeth fydd,
Am Ieſu'n talu'r dyled au rhoddi hwyntay'n rhydd.

Ac

Ac weiſion a morwynion rai tlawd diddyſg diddawn,
Diferaf fi om hyſpryd o forau hyd brydnhawn;
Prophwydo wnant yn llawen, a moli a mwynhau,
A'r ffrydiau melys hyfryd heb derfyn yn parhau.

Ac mi wnaf ryfeddodau yn y ffyrfafen fry,
Ac ar y ddaear iſod waith etto erioed na fy;
Tarth, tân a mwg a fflamau, a gwaed yn llifo'n un,
Effeithiau o haeddianol ddioddefaint mab y dyn.

Fel bydd hi'n rhy ofnadwy i neb anniwiol rai,
I dyrfa y Duwiolion heb ofn agoſhau;
Fath arſwyd gref ai dala, dychrynllid ofn mawr,
Y preſenoldeb dwyfol ni oddefant funud awr.

A phwy heb anian nefol all ddiodde ar un pryd,
Un radd o nerth y nefoedd eſgynno lawr ir byd?
Pan gwaſgo haul cyfiawnder yngrym y dydd yn nes,
Ni all dyn heb ei gyfnewid fyth fythol ddiodde'r gwres.

Pan llanwodd yſpryd Ieſu un waith y demel fawr,
Ni allai'r ffeiriaid aros oi mewn hi funud awr;
Ac nis gall ſeintiau eu hynain o ran nad ynt ond gwan
Ond bai fod Duw yn eu cynnal i ſefyll fyth ir lan.

Yr haul a droir yn dywyllwch ar lleuad wen yn waed,
A phob ardderchog bethau a gwymp yn lân tan draed
Fe fydd yr holl ogoniant, y Parch y clod, ar bri,
Yn gryno'n mynd i gerdded i fynydd calfari. *Eſa.* 2.

Ar brophwydoliaeth yma yn hllol ddaeth i ben,
Rai dyddiau nol in Harglwydd i eſgyn uwch y nen;
Mewn gwyl rodd Dinas *Salem* ac ynthi lu ynghyd,
Cenhedloedd rai a iaithodd o barthau pella'r byd

O *Media*, ac o *Parthia* ac *Elamis* draw draw,
Trigolion *Meſop'tania*, a *Judah* oedd gerllaw;
O *Pontus*, ac o *Aſia*, a *Chapadoſia* fras,
O *Phrigia*, a *Phamphilia*, o'r *Aipht*, a *Libia* gras.

Deithred o *Ryfeinwyr*, *Iddewon* heb ddim rhi,
A *Phroſelitiaid*, hefyd aneirif gymyſg lu;
A *Chreſtaid*, ac *Arabiaid* yn clwed yn guttun,
Hwy'n moli'r Iechawdwriaeth bawb yn ei iaith ei hun

Wel

Wel dyma'r man roedd terfyſg chwech ugain heb ddim
llai,) *Actau.* 1. 15. (ai;
Yn canmawl, yn bendithio, prophwydo oedd hyn heb
Gwyr gwragedd, meibion merched, gwyryſon gweiſion
Yn feinio clod ir Ieſu, am waredigaeth hael. (gwael,

Ac nid oedd hyn yn ddiau ond blaenion ffrwyth o'r wledd
Mae'r ſaint i gael ei phroſi yr ochor hyn ir bedd;
Awelon perffaith hyfryd ir pererinion gwan,
Iw nerthu, ac iw codi, ou hofnau oll ir lan.

Ac fel y cablwyr hynny, digwilydd a diras,
Yn dweid mae meddwon oeddent neu tan ryw ynfyd ias
Run wedd mae plant y tywyllwch yr awrhon fel o'r blan
Yn cablu gwaithrediadau melyſa'r yſpryd glân.

Llefaru a thafodau, er nad yw hynny nawr,
Roedd ydoedd ar y cyntaf i ſelio'r fengil fawr;
Ond mae'r effeithiau erill fyth fythol i barhau,
Sef moli'r Oen ai gamawl au garu fyth heb drai.

Am hyſny mi'ch tynghedu pan teimloch nefol wres,
A chwmwl Iechadwriaeth yn gwaſcu lawr yn nes;
Cynhyrfwch gŷda'r awel. ac er nad ych ond gwan,
O llefwch am gael eſgyn yn y glofen fwg ir lan.

A gwawdied rhai, a chwarddent eſtynent weſl i mâs,
Holl ſilwedd eich caniadau yw Iechadwriaeth gras;
Boed cwilydd ar blant *Belial*, cans achos cwilydd yw,
Ond na foed cwilydd canmawl ſyth fyth ar feibion Duw

Ddyn darllen ddyddiau *Moſes* boreuddydd tywyniad gras
Gwel wres y dawnſio ar canu nol iddynt gario'r ma's,
Gorfoledd a llawenydd yn torri maes yn lli, (*Ecſod.* 14
Ai concweſt ydoedd gyſgod o'n concweſt hyfryd ni.

Pan oedd y mor yn cyddio gelynion heb ddim rhi,
A *Pharoah* fawr yn ſoddi au luoedd yn y lli;
A thorf y gwaredigion ai holl druſorau'n ſtor,
I gyd ar dir dihangol yr ochor draw ir mor.

Barn 11. 34. 1 *Sam.* 21. 11. ar 29. 5. *Jer.* 31. 4.

Gwel *Firiam* ar ei dimpan yn ledio'r dawns yn mla'n,
Ar gwragedd yn ei chanlyn yn chware wrth y gân;

Ar

Ar werin heb rifedi fel y mae'r gair yn ſon,
Yn canu caniad *Moſes* ſef hyfryd gân yr Oen.

Ac yn y fath orfoledd pwy allſe ddwedyd paid?
A Duw ai for ai donnau yn chwareu'n llyn ou plaid;
Pwy dafod allſe attal pwy wefys na wnai ei rhan,
Weld *Pharoah* yn y dyfnder ac *Iſrael* ar y lan.

Y gwyr, y plant, ar meibion yn un yn dyrcha ei llef.
Mewn Haleluias gwreſog ir lan hyd at y nef;
Ar feichiog lwythog hithau wedi cal yſgafn droed,
Yn neidio fel y forwyn na adnabu ŵr erioed.

Heb neb yn wylo dagrau, na dim-achwynion cas,
Ond canu am waredigaeth o'r dywyll *Aipht* i ma's;
Gweld *Pharoah* yn y dyfnder a hwythau ar y lan,
Sydd yn cordeddu'r canu gogyfywch cryf a gwan.

Preſwylwyr creigydd canent, be *Eſay*'n loiw clir,
O ben y bryniau bloeddiant y Iechawdwriaeth bûr;
Gogoniant rhoent ir Arglwydd. ei eiddo'n gyfan yw,
A deued holl ynyſoedd y byd i foli Duw, *Eſa* 42. 11.

Merch ſion can yn uchel. crechwenna a chwardd yn hu,
A gorfoledda oth galon medd *Zephi* wrthym ni; *Ze* 3. 14
Ar *Salmydd* yntau garia'r gorchymun yn y blân *Pſa* 147. 1
Chwi boblodd curwch ddwylo yn draphlith fawr a mân.

A pfam bydd llaw yn ſegyr? y dwylo greodd ef?
Ei ddwylo ei hun a hoeliwyd rhwng daear fawr a nef;
Am hyn na foed gan ſeintiau na thafod, llaw, na thro'd
Ond i fanegu ei fawredd, ac i ddurchafu ei glod.

Eſaias ſyn prophwydo bod dyddiau gwych i ddoed,
Agorid llygaid deillion na welodd ddim erioed; *Eſa* 35.
Ca' glyſtiau rai byddariaid i glywed hyfryd lef,
A ſugnai ei ſerchiadau o ganol byd i'r nef.

Y ſwn wreſogai ei calon nes llammu o'r cloff fel hydd,
A thafod mud i ganu heb dewi nos na dydd;
Cans fe dyn ddyfrodd allan afonydd gloyw laes'
Mewn diffaith arw leodd mewn crindir anial cras.

A thyma'r crindir anial torf o anniwiol rai,
Diferion da, dirinwedd, llawn llygredd a phob bai;

Ar

Ar dyfroedd ſydd yn torri yn afon loiw la's
Yw'r dilanwadau hyfryd 'ddiwrth yſpryd dwyfol ras.

Pryd hyn daw'r gwaredigion i mewn i ſion lân,
Tan ganu a than foli yn cerdded yn y bla'n; *Eſa* 35.
Llawenydd maith tragwyddol yn gorphwys ar ei pen,
Heb gyſtudd yn ei blino a gwrddont i's y nen.

Wel dyma'r dyddiau dedwydd, na ddweded neb rhiw
Yn erbyn addewidion a roddodd Duw ei hun; (ddyn
Mae barn ddiſymwyth gadarn i gwympo'n danllid ias,
Ar benna ddyn a gablo bûr weithrediadau gras.

O Babel gaeth y daethom trwy nerth y dwyfol ras,
Am hyn ein geneu lanwyd o chwerthyn hyfryd flas;
Ar tafod bloeſg o'r diwedd a ddaeth i ſeinio cân *Pſal* 126
Ir Tad ir Mab tragwyddol un wedd ir Yſpryd Glân.

Ac fel y neidiodd *Ioan* fedyddiwr yn y bry, *Luc.* 1. 40
Pan y cyfarchodd iddo fam Ein Iechawdwr ni;
Ac nid oes neb a deimlodd o ddwyfol ras y nef,
Na neidia a chrechwenna wrth ei gyfarchiad ef.

HYMN I.

1 MAE ngelynion heb rifedi,
Ac yn adnewyddu ei grym;
Minnau eiddil gwan heb allu,
Yn eu herbyn ſefyll dim;
Fy unig nerth fy unig gyſſur
I fod Tywyſog mawr ei fri,
Trech nag Angau, trech nag uffern
Yn y frwydr gida mi.

2 Raid i'r gelynion rhag ei ofn
Pan ſont fwya yn crynhoi,
'Ddiwrth ei breſenoldeb gadarn
Yn wradwyddus iawn i ffoi;
Yn ei freichiau dwyfol tyner
Yn ddiofn mi a mla'n,
Ac nid ofnai'r tonnau mawrion
Dyfnder dwr na'r fflamau tân.

Y mae

3 Y mae rhinwedd yn ei gariad
Ac a wnaiff y caeth yn rhydd;
Tywyll nos heb ronyn lewyrch
Yn oleuni hanner dydd
Mi drafaela'r anial garw,
Creigydd uchel diffaith dir,
Ac ni cheiſiaf ddawn na meder
Ond ei nerthol gariad pur.

HYMN II.

1 MAE fy nghalon lwfr ofnus
Nawr yn goſod o fy mla'n,
Wae a blinfyd heb rifedi,
Dyfroedd dyfnion fflamiau tân;
Minnau 'mafiaf er mor wanned
Yn ei fantell ddwyfol wen;
Ai gyfiawnder wiſgai'n hollol
O flaen gorſedd fawr y nen.

2 Fe atteb ei gyfiawnder perffaith
Lid y gyfraith yn ddidrai;
Ac fe ddofa wres digofaint
Dwyfol at ei anwyl rai;
Dyna'r pryd terfynwyd talu
Pan dioddefodd angau loes,
Ac fe brynodd gyflawn rydd-did
I rai caethion ar y groes.

3 Minnau bellach af heb ofni,
Bellach af heb lwfrhau;
Yſgafn wyf fe dynnodd ymaith
Rym'f euogrwydd a fy mai;
Yn ei nerth mi gerdda yn eon
Tros y bryniau uwcha gâd;
Ac ni flinai fyth na gorphwys
Nes im gyraedd ty fy Nhad.

HYMN III.

1 MAE'r llifogydd mawr yn chwyddo
Rhwyſtrau yn dublu o fy mlaen;

Ton

Ton nol ton o hyd yn canlyn
Bwgwth ſoddi 'm henaid maen ;
Ond mi a trwy'r afonydd dyfnion
Ac mi anturia'r dwfn li ;
Am fod tywyſog mawr y bywyd
Yn y dyfroedd gyda mi.

2 Ar ei allu'r wyf yn pwyſo
Yn ei allu mae fy ngrym ;
Boed ei allu mawr om cwmpas
Fel na chollwi r frwydr ddim
Mi ro ſhallens i bob gelyn
Tan ei aden rwyf yn byw
Dyma'r man y gorfoledda I
Yn nghyflawnder mawr fy Nuw.

3 Nerth a chariad a ffyddlondeb
Duw-dod all fy nal ir lan ;
Rhagor o ogoniant ſy iddo
Am fy mod i'n eiddil gwan ;
Iddo boed y clod ar enw,
Iddo boed y parch ar bri ;
Oen yw laddwyd ar galfaria
Oen yw laddwyd trſor ſi.

HYMN IV.

1 YM ddigryſa fenaid bellach
Yn ei Iechadwriaeth lawn ;
Boed fy mywyd yn fyfurdod
Am ei gariad forau a nawn ;
Os cai Syddo'm henaid ynddo
Gwn y daw fy nhroed yn rhydd
Or cadwynau ſydd gan Satan
Yn fy attal nos a dydd.

2 Nid yw'r gelyn mwya ei allu
Mwya cyfrwys mwya ei lid ;
Nabal ddygyd un oi ddefaid
Ar ſechawder mawr y byd ;
Ar ei yſgwyd dyner eſmwyth
Ei gyrwydraid ddug e'n nol,

Ac

Ac fei hymgeledda'n rasol
Adihangol yn ei gol.

3 Bellach mi ro gyfan ffarwel
Ir Posiau mwya dryd;
Ag am temptiod I iw caru
Yn anialwch oer y byd;
Daccw wrthrych pur fy ngariad,
Ar Galfaria uchel draw,
Wedi ei hoelio gan fy mechod
Yn ei draed ac yn ei law.

HYMN V.

1 OFforddolion drychwch arno,
Dyma gariad cariad yw;
Dwyfol ddyn yn diodde marw
Tros elynion salwa eu rhiw;
O fy enaid gwrando adsain
Glir oi ddymol ddwyfol lef,
Dere adre dere adre
I fyfed oi dangneddyf ef.

2 Mae yma heddwch mae yma fywyd
Mae llawenydd yma'n lli,
Mae yma gyfoeth does ai pwysa
Ddim sydd ar ein daear ni;
Trugareddau maith diderfyn
I drueniaid gwaela ei rhyw,
A thrwy rinwedd dwyfol glwyfau,
Ffafor fythol bûr a Duw.

DIWEDD.

ABERHONDDU,
Argaphwyd dros yr AWDWR, gan J. EVANS,
1784.

24 DE 67